Cenn@d

MAWRTH 18 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 264

# Arweiniad Cytûn i Etholiadau Senedd Cymru 2026




Cynhelir yr etholiad nesaf i'r Senedd ym mis Mai 2026, gan fod cyfraith Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i etholiadau'r Senedd gael eu cynnal bob pum mlynedd. Bydd pleidleiswyr ledled Cymru yn ethol Aelodau o'r Senedd (ASau) i'w cynrychioli ac i wneud penderfyniadau ar faterion sydd wedi'u datganoli, megis iechyd, addysg a'r amgylchedd. Bydd etholiad 2026 yn defnyddio'r system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Yn hytrach na phleidleisio fesul etholaeth a rhanbarth fel yn y gorffennol, bydd yna nifer o etholaethau mwy a fydd yn cynnwys sawl aelod, a etholir drwy ddull pleidleisio cyfrannol.

Mae'r etholiad hwn yn gyfle allweddol i bobl Cymru helpu i lunio cyfeiriad llywodraeth y wlad yn y dyfodol ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynrychioli wrth wneud penderfyniadau cenedlaethol.

Deunyddiau, cyngor ac arweiniad ar sut i ymgysylltu â'r broses etholiadol

Mae deunyddiau etholiad Cytûn yn cynnig arweiniad clir a hygyrch i helpu eglwysi ac unigolion ledled Cymru i ymwneud yn hyderus ag Etholiad y Senedd 2026. Mae ein hadnoddau'n dwyn ynghyd wybodaeth ddiduedd am y materion dan sylw, cyngor ymarferol ar gynnal trafodaethau teg a pharchus, ac awgrymiadau ar sut y gall cynulleidfaoedd gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

P'un a ydych yn ceisio deall y system etholiadol newydd, yn cynnal digwyddiad, yn archwilio themâu polisi o safbwynt Cristnogol, neu'n cefnogi'ch cymuned i wneud dewisiadau gwybodus, mae deunyddiau Cytûn wedi'u cynllunio i roi cefnogaeth ddibynadwy, gytbwys a myfyriol i chi drwy gydol cyfnod yr etholiad.

Gellir dod o hyd i holl adnoddau Cytûn i'ch cefnogi chi, eich eglwys neu eich enwad yn Adran Adnoddau gwefan Cytûn.org.

## Gweddi wrth baratoi ar gyfer etholiad Senedd Cymru ym mis Mai

**Arglwydd Dduw hollalluog,**
Deuwn ger dy fron wrth i'n gwlad baratoi ar gyfer etholiad Senedd Cymru.
Diolchwn am y rhyddid sydd gennym i bleidleisio ac i gymryd rhan
yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd ein cymunedau a'n gwlad.
Rho ddoethineb i bob un ohonom wrth feddwl, trafod a dewis.
Helpa ni i wrando ar ein gilydd gyda pharch ac urddas, ac i geisio'r hyn sydd er lles pawb
o fewn ein cymdeithas.
Bendithia'r rhai sy'n sefyll fel ymgeiswyr.
Rho iddynt ysbryd o onestrwydd, gostyngeiddrwydd a gwir awydd i wasanaethu'r bobl.
Cadw nhw rhag balchder a hunan-les,
a thywys nhw i geisio cyfiawnder, trugaredd a gwirionedd.
Gweddïwn dros Gymru a'i phobl –
dros ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi,
dros ein teuluoedd a'n cymunedau.
Boed i'r rhai a etholir arwain gyda doethineb a gofal, gan geisio cyfiawnder, tegwch a ffyniant i bawb.
Arglwydd, bydd gyda ni yn y dyddiau hyn o benderfynu,
ac arwain ein gwlad yn dy oleuni a'th lewyrch di.
Amen.

*Aled Davies*

O ddesg y llywydd: Argraffiadau o Frecwast Gweddi'r Senedd **Tudalen 3**

Brecwast Gweddi Sir Benfro **Tudalen 4**

Cofio cyfraniad personol y Parch. Ddr Robert Cunville **Tudalen 5**

# Rhyfel Iran

Mae yna dros ddwy flynedd ers i ni gychwyn cyfarfod yma a rhybuddio y gallai rhyfel Netanyahu a Trump yn Gaza arwain at ryfel ehangach. Bellach, gan ddiystyru deddfau rhyngwladol, maent wedi mynd i ryfela yn Iran – rhyfel sydd wedi ymledu drwy'r Dwyrain Canol ac a allai arwain at ryfel byd.

Pam? Dyw Trump ddim yn siŵr, ac mae'n newid ei feddwl drwy'r amser.

Un o'i resymau yw'r peryg, medde fo, y gall Iran gynhyrchu arfau niwclear. Pan ymosodwyd ddiwethaf ar Iran cyn y rhyfel yma, fe ddywedodd Trump y byddai'n amhosib i Iran ddatblygu arfau niwclear wedyn – celwydd amlwg. Lle ydyn ni wedi clywed hyn o'r blaen? Wel, pan arweiniodd Tony Blair ni i ryfel yn Irac efo canlyniadau trychinebus, efo'r un rheswm celwyddog.

Mae Trump wedi newid ei feddwl eto, a dweud mai ymosod mae o i achub pobol Iran o ormes Khamenei a'i ddilynwyr. Mae'n wir fod pobol Iran wedi dioddef yn enbyd dan eu rheolaeth. Ond nid bomio ysgolion a lladd dros 160 o blant, dinistrio'u cartrefi a chreu anhrefn a gwrthdaro mewnol sy'n mynd i wneud hynny. Rhagrith gan ddyn sy'n defnyddio ICE i ormesu dinasyddion yr Unol Daleithiau ydi hyn.

Mae Trump wedi dod â thrafodaethau hefo Iran i ben, ac am ymestyn ei imperialaeth drwy fynnu cael rhan yn llywodraeth y wlad honno. Fe fyddai hynny, mae'n siŵr, yn caniatáu iddo ddwyn eu holew, fel y mae'n ceisio'i wneud yn Venezuela. Ac mae'r cyfoethogion sy'n cynhyrchu'r arfau dieflig hyn a'r rhai sy'n datblygu'r dechnoleg sydd ynddynt wrth eu boddau ac yn gwneud elw mawr. Does dim prinder arian i gynhyrchu'r rhain, ond ychydig iawn sydd ar gael ar gyfer iechyd, addysg a chymorth i wledydd anghenus – pethau fyddai'n gyfrwng i atal gwrthdaro.

Ymosod wnaeth o i blesio'i gyd-ormeswr Seionaidd Netanyahu, un sydd wedi bod yn ysu i ddistrywio Iran ers blynyddoedd. Mae Netanyahu yn gallu beirniadu Iran am eu hymosodiadau ffiaidd ar eu pobl, ond yn fodlon lladd dros 70,000 o Balestiniaid ac yn dal i ormesu yn Gaza.

Mae'r rhyfel yn ymledu: mae Israel yn ymosod ar Lebanon, ac mae Iran yn targedu gwledydd y Dwyrain Canol sydd â thuag ugain o ganolfannau milwrol yr Unol Daleithiau ynddynt. Ac mae China a Rwsia yn gefnogol i Iran, ac yn ei harfogi. Mae Putin yn feirniadol o Trump am ddechrau'r rhyfel ond wedi gwneud yn union yr un fath yn Wcráin.

Mae Trump yn feirniadol o Starmer gan ei gyhuddo o beidio ymuno yn y gyflafan, a rhaid i hynny barhau. Ond, drwy ganiatáu i'r Unol Daleithiau ddefnyddio safleoedd militaraidd Prydain ac anfon arfau i Israel, mae'n caniatáu cefnogaeth i'r rhyfel. Mae yna dystiolaeth fod dros 20,000 o Brydeinwyr wedi bod yn cynorthwyo'r IDF.

Y rhai sydd ac a fydd yn dioddef ydi pobl Iran. Bydd bywydau'n cael eu colli, yr adeiledd a'r economi'n cael eu dinistrio, anhrefn a gwrthdaro mewnol yn debygol yn y wlad.

Rydyn ni yma i geisio byd cymodlon. Allwn ni ddim bod yn dawel a chaniatáu i'r anfadwaith yma barhau.

Rhaid i ni argyhoeddi ein harweinyddion a'u cefnogwyr o ffolineb pob rhyfel. Rydw i am orffen efo geiriau Martin Luther King, sy'n berthnasol iawn oherwydd y tywyllwch y mae pobol Iran wedi ei ddioddef a'r tywyllwch maent ynddo ar hyn o bryd: 'All tywyllwch ddim dileu tywyllwch; dim ond golau all wneud hynny. All casineb (na rhyfel) ddim dileu casineb; dim ond cariad all wneud hynny.'

Rhaid i ni beidio â digalonni yn ein hymdrech i gael byd cyfiawn a chymodol. Gwneud dim byd sy'n caniatáu i ddrygioni ffynnu. RHAID i ni ddyfalbarhau nes llwyddwn ni.

*(Cyflwynwyd mewn gwylnos yng Nghaernarfon gan Dr Gwyn Williams)*

# Dydd Gweddi'r Byd 2026 yn y Bala



Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd yng Nghapel Tegid, y Bala, fore Gwener, 6 Mawrth, ar gyfer aelodau Gofalaeth Thomas Charles, yr Annibynwyr ac Eglwys Crist, y Bala. Roedd y gwasanaeth eleni ar y thema 'Rhoddaf orffwys i chwi, dewch' (Mathew 11:28–30.

Gyda peth petruster y derbyniais gais ein hysgrifennydd i ysgrifennu adroddiad byr ar yr uchod gan mai fi oedd yr unig ŵr yn bresennol eleni oherwydd anhwylder y Parch. Eric Greene. Byddaf yn cael tynnu fy nghoes – gan un o'r Annibynwyr – bob blwyddyn pan fydd yn gofyn ble mae fy sgert? Rydwyf wedi sylwi mai prin iawn ydi'r merched sydd yn gwisgo sgert erbyn hyn!

Paratowyd y gwasanaeth gan grŵp eciwmenaidd o ferched Cristnogol o Nigeria. Wrth inni gymryd rhan yn y gwasanaeth hwn – ac roedd yn ofynnol dilyn y gwasanaeth ac ymateb yn y mannau priodol fel yn y cyfarwyddyd – roeddem yn ymuno â thon ryfeddol o weddi oedd yn cylchu'r byd i gyd, gan gychwyn yn Samoa a diweddu yn Samoa Americanaidd, 146 o wledydd yn ddiweddarach. Pob gwlad yn gweddïo gyda phobl Nigeria, a throstynt.

Dyna i chi fraint, yntê, cael bod yn rhan fechan bach o don o weddïau yn amgylchynu'r byd i gyd. Mae'n mynd â fy ngwynt wrth feddwl am hyn, a mawr yw fy niolch i'r gwragedd hyn ar draws y byd. Dyma un don o weddi, a hyn tra mae'r dynion yn rhyfela am eu gorau gydag ychydig iawn o gydymdeimlad at drueiniaid tlawd a dolefus ar draws wyneb y ddaear. Cywilyddiwn ni, ddynion, am y galanast sydd yn cael ei wneud ar y blaned yma a etifeddwyd gennym.

Diolch i ferched Cristnogol am y gwasanaeth hwn, a gweddïwn y bydd eu storïau'n annog ac yn ysbrydoli merched drwy'r byd i uno fel un corff mewn gweddi a gweithred.

Nos Lun, 9 Mawrth, cefais glywed darlith o Fethesda am ran merched lleol a arwyddodd y ddeiseb yn 1923. Casglwyd dros 300,000 o lofnodion ar draws Cymru i geisio dod â therfyn i ryfeloedd byd. Ofer fu eu hymdrech, ond mae'n destun balchder i ni yma yng Nghymru ac fe ddylai ymdrechion y merched i gynnal Dydd Gweddi'r Byd ein llenwi ninnau â balchder. Byddwn yn pwyso ar unrhyw ŵr sydd yn darllen hyn o adroddiad i wneud ei orau glas i fynychu cyfarfod flwyddyn nesaf.

Daeth y gwasanaeth at ei derfyn gyda Galwad i Weithredu: 'Gadewch i ni gadarnhau ein hymrwymiad i fod yn draed a dwylo i Grist mewn byd sy'n hiraethu am obaith a gorffwystra. Ble gallwn ni ganfod ein gobaith mewn byd o feichiau? Yng Nghrist sy'n cynnal ein beichiau i gyd.'

*Arthur Rowlands*

# O Ddesg y Llywydd: Argraffiadau o Frecwast Gweddi'r Senedd




Fel rhan o'u dathliadau Gŵyl Ddewi, fe wahoddwyd Nan, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, a minnau i Senedd Cymru ar gyfer Derbyniad Rhyngwladol a Brecwast Gweddi. Roedd hi'n galonogol iawn, o ran ein bywyd cenedlaethol, i weld Aelodau o'r Senedd o wahanol bleidiau yn un mewn gweddi a chymdeithas fel Cristnogion sy'n arddel ac yn arfer eu ffydd. Roedd hi'n galonogol hefyd cael cwmni cynrychiolwyr o gynifer o wahanol enwadau a thraddodiadau a sefydliadau Cristnogol yma yng Nghymru, ynghyd ag arweinwyr gwleidyddol ac eglwysig o wledydd eraill o gwmpas y byd. Roedd y gymdeithas felys hon yn gyferbyniad amlwg i'r hyn sy'n cael ei rannu o newyddion ein byd.

Roedd yn sicr yn f'atgoffa o'r hyn y mae Cristnogaeth yn ei gynnig i'r byd, gan gynnwys byd gwleidyddiaeth. Mae'r byd gwleidyddol wedi hen dderbyn saith Egwyddor Nolan, a gyflwynwyd ym 1995, ar gyfer deiliad pob swydd gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth. Maent yn nodau teilwng iawn ac mae bob amser yn drist pan fydd realiti yn chwalu ein delfrydau ac unigolion yn cael eu dwyn i gyfrif am gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus.

Ond mae egwyddorion Cristnogaeth yn mynd ymhellach o lawer. Nid yn unig y mae Cristnogaeth yn bortread gonest o'r natur ddynol yn ei holl fregusrwydd a'i methiannau, ond mae hefyd yn cynnig atebion. Rwy'n gweld geiriau Tom Wright, Cyn-esgob Durham, yn ddefnyddiol: 'Nid wedi ei ddrysu yn unig mae'r byd, ac angen cyngor da; nac yn syml wedi ei arwain ar gyfeiliorn, ac angen arweinyddiaeth dda; nac yn ffwndrus yn unig, ac angen gweld esiamplau da. Mae'r byd yn sâl ac angen ei iacháu; mae'n bechadurus ac mae angen maddeuant arno; mae dan arweinyddiaeth estron ac yn hiraethu am deyrnas Dduw.'

Cymerodd dyfodiad Mab Duw i fyw yn ein plith i ddangos i ni sut i fyw. Ond, yn fwy na hynny, yn ei farwolaeth ar y Groes gwnaeth drosom ni yr hyn na allem ni ei wneud drosom ein hunain. Aeth i'r afael â holl rymoedd drygioni a'u trechu. Mae ei eiriau: 'Dad, maddau iddynt oherwydd ni wyddant beth maent yn ei wneud' yn cynnig y gobaith gorau posibl i ddynoliaeth. Mae gennym ras Duw, y fudddugoliaeth a enillwyd eisoes dros natur bechadurus dyn a hyd yn oed dros farwolaeth ei hun. Mae grym yr Atgyfodiad yn cynnig ac yn cadarnhau teyrnas newydd, dragwyddol i bob un sy'n credu.

Mae Cristnogaeth yn cyhoeddi bywyd o wasanaeth, mewn gostyngeiddrwydd, a bydd ein Ap Gweddi newydd yn cynnig inni ffordd arall o gynnal ac annog ein gilydd yn ein teithiau unigol ac yn ein bywyd fel enwad. Atgoffodd y gymdeithas a gawsom yn y Senedd ni faint o bobl sy'n ymdrechu i wneud gwahaniaeth yn y maes y maent yn byw ac yn gweithio ynddo – mewn bywyd cyhoeddus ac yn yr Eglwys. Roedd gweld rhai a'u hymrwymiad yn gyntaf ac yn bennaf i'w ffydd, fel yr egwyddor sylfaenol, yn galonogol i ni fel unigolion ac mae'n galonogol i'r Eglwys yn gyffredinol.

*Glynis Owen,*
*Llywydd Cymanfa Gyffredinol*
*Eglwys Bresbyteraidd Cymru*

S4C

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Mawrth, am 6:45yh – Ein Milltir Sgwâr**
Mae Lisa Gwilym yn Nyffryn Clwyd yng nghwmni'r teuluoedd sy'n cael gofal amhrisiadwy yng Nghapel y Waun, ger Llanelwy. Daw'r canu o Gapel Rehoboth, Prestatyn, dan arweiniad Trystan Lewis.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siôn Brynach

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 22 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon**
Oedfa dan arweiniad Hannah Smethurst

# Brecwast Gweddi Sir Benfro – Gwesty Allt-yr-afon, Casblaidd, 7 Mawrth 2026

Wedd hi'n wêr bore dwê pan godon ni i fynd i'r Brecwast Gweddi. We ddim isie larwm i godi, wên ni mor egseited bod y dwarnod mowr wedi dwâd. We llydrew ar y perci i gyd, pentigili o Dyddewi i'r Fwrd, ond we'r houl wedi codi. We'r stafell yng ngwesty Allt-yr-afon yn barod i ni, achos wên ni wedi bod draw y nosweth gynt yn ca'l popeth yn ei le: llyfre canu a gweddïo ma's ar y fordydd, baneri pert yn hongian ar y llwyfan, a'r tecline modern sain yn eu lle'n barod i chwyddo'r lleisie.

'Na bleser we cliwed pobl yn siarad â'i gili ar y ffordd miwn i'r gwesty a dal i neud hynny wedi mynd miwn, nifer heb weld ei gily ers pobiade. Rhaid cyfadde, we'r stafell braidd yn wêr i ddechre ond twmodd pethe lan yn gloi! Y cinta i weddïo we'r Parch. Ken Thomas, ac ynte wedi paratoi'n dda wrth ddiolch am y dwarnod, y bwyd a'r gwmnïeth. Am frecwast sbesial! Bacwn, wŷ, sosej, tomato, tato, mwshrwms, pwdin gwa'd a bîns. Digon o dost, te a choffi (os wech chi'n posh), heb angofio'r orenj jiws. Ges i eriôd orenj jiws 'da Mam yn grwt bach, dim ond 'sgwash' nawr a lwêth!

'Na falch wên ni i ga'l croesawu hen ffrind, Emyr Wynne Jones o Garfwrddin, i arwen y canu. 'Na chi foi sy'n deall canu, ond yn fwy na 'ny yn deall addoli. Canu o'r galon wedd e'n dweud bo'r Arglwydd isie, a wedd e yn llygad ei le. Canon ni emyn o fawl i'r Arglwydd Iesu, Wên Duw, 'O nefol addfwyn Oen'. Canon ni am gariad rhyfeddol Duw, 'Dyma gariad fel y moroedd'. Canon ni hefyd am brydferthwch yr Arglwydd Iesu, 'gwyn a gwridog, teg o bryd'. Wên ni'n teimlo cyffro yn y stafell a mawl yn codi o'r tu fiwn – 'na beth we eneiniad! Diolch i Emyr a Rob am arwain yr addoliad, ond we un bach arall yn cyfeilio'n dda, yn jamo ar y gitâr, Parch. Rhosier Morgan. Na, nid triawd y coleg we rhein, ond triawd y gwesty, yn plethu eu donie at 'i gily yn un gân o fawl.

Wên ni wedi gofyn i bedwar person i ddwâd mla'n i'r ffrynt i weddïo'n uchel am bethe penodol: Parch. Siân Elin yn gweddïo am gartrefi gofal; Parch. Geoff Eynon yn gweddïo am y gwasaneth iechyd; Donna George yn gweddïo am fyd addysg; a Nigel Davies yn gweddïo am y dystioleth Gristnogol yn y wlad. We'r gweddïe rhein yn dwâd o'r galon, dros wefuse clir a miwn i'n heneidiau. Wên i'n 'Amenio' y cifan yn fy nghalon.

Braint we ca'l croesawu'r Parch. Rob Jones, o Beniel, ar bwys Carfwrddin, i agor y Gair i ni. Ma Rob wedi llwyddo i ddysgu Cwmrâg yn dda a wedd e'n pregethu am y tro cinta riôd yn iaith y nefodd. Gyda gwên ar ei wmed, gwres yn ei galon a hyder yn ei lais, arweinodd e ni drwy'r weddi fowr, 'Gweddi'r Arglwydd'. Diolch i Dduw am ffrindie sy'n barod i ddysgu Cymrâg a'i hiwso hi'n gyhoeddus. We Emyr ar ei bwys e'n rhannu'r neges, tag-tîm fel y Royal Brothers, restlers o'r whechdege. A gweud y gwir, 'na beth wên nhw, tag-tîm brodyr brenhinol.



Ma nhw'n dweud bod defed y mini'n leico gwlith ar y borfa a houl ar eu cewne! Wel, 'na beth ddigwyddodd. Wrth i Rob siarad gyda ni, we gwlith ar y borfa a'r houl ar ein cewne.

Wedyn we amser o weddi rownd y fordydd. We'r profiad wedi twtsh â 'nghalon i: cliwed lleisie'n gweddïo'n uchel, a rhai siŵr o fod wedi gweddïo'n dawel, ond we Duw wedi cliwed y cifan. Wedd hi fel codi caead cwch gwenyn a chliwed y gwenyn yn hwmian emyne mewn harmoni. We dim byd yn lletwyth yn y gweddïe rownd y fordydd, dim ond plant yn siarad yn naturiol gyda'u Tad nefol.

Parhau i weddïo nethon ni gyda'r emyne dwetha, gweddïo dros ein hunen, dros yr eglwys a dros ein gwlad. 'O! na bawn yn fwy tebyg / i Iesu Grist yn byw' we geirie'r emyn cinta. We her yn yr ail emyn i'r eglwys beidio byw yn esmwth ond i ddysgu mistyn gwin ac oel ar gleisie a chlwyfe pobl rownd i ni. We angerdd hefyd yn yr emyn diwetha, ail anthem y genedl, siŵr o fod, 'Dros Gymru'n gwlad, o Dad, dyrchafwn gri'. We'r cifan wedi llifo'n naturiol o un peth i'r llall, popeth yn rhedeg fel watsh!

Ar y ffordd getre, silwes i bod y naws wedi newid: we'r llydrew wedi codi, we'r dwarnod wedi twmo. Ond, ar ben hyn, we 'nghalon i'n dwymach hefyd: 'Arglwydd, cod y llydrew o'r perci, rho wlith ffresh ar y borfa a gad i ni deimlo eto houl ar ein cewne.' Sdim isie i ni aros i weld a ddaw rhywbeth o'n gweddïe. Mae Duw wedi cliwed ac yn sicr mae'n ateb yn ei ffordd ei hun ac yn ei amser ei hun. Un o'r pethe sy'n aros yn fyw yn fy nghof yw'r gymdeithas; we gweld pawb mor jocôs gyda'i gily'n fraint. We pawb wedi ca'l bendith, sdim dowt am hyn! Ond, yn bwysicach fyth, we'r Arglwydd wedi cael ei glodfori.

*Geraint Morse*

## Aelodau Eglwys Bethel, Lerpwl, a chylch Lerpwl yn arwain gwasanaeth Dydd Gweddi'r Byd



# Cofio cyfraniad personol y Parch. Ddr Robert Cunville, Bryniau Casia, India (1939–2026)



**'Yr wyf wedi ymdrechu'r ymdrech lew, yr wyf wedi rhedeg yr yrfa i'r pen, yr wyf wedi cadw'r ffydd.' (2 Timotheus 4:7)**

Rhedodd Robert y ras mewn gwirionedd. Ymdrechodd yr ymdrech lew. Cadwodd y ffydd.

Cyfarfûm â Robert gyntaf tua deng mlynedd yn ôl. Fel llawer o rai eraill, roeddwn i'n gwybod rhywbeth amdano – y dyn duwiol yma o Gasia, yr efengylydd pwerus, yr un oedd mewn cariad dwfn ag Iesu, yn barod i fynd i bob cornel o'r byd i rannu'r Efengyl.

Ar ôl llawer o weddïo a dod i'r lle hwnnw nad oes gennych ddewis ond ymroi'n llwyr i ewyllys yr Arglwydd, fe fyddwn i'n cymryd y cyfrifoldeb o fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Yn fuan wedyn, ddechrau mis Medi 2022, cyfarfûm â Robert yng Nghaerdydd ar ddechrau'r tymor newydd hwn yn fy mywyd. Fel bob amser, gwnaeth Robert ymdrech arbennig i'm cyfarfod y diwrnod hwnnw. Roedd wedi bod mewn cyfarfodydd yn Llundain drwy'r wythnos, ond ychydig cyn iddo hedfan adref, teithiodd o Lundain i Gaerdydd – yn arbennig i gyfarfod â'r Ysgrifennydd Cyffredinol newydd hwn yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Roedd gennym gymaint yn gyffredin: ni fyddai byth ddigon o amser ar gyfer ein cyfarfodydd, ac roeddwn i bob amser yn dyheu am y cyfarfod nesaf. Ond yn y cyfarfod cychwynnol hwnnw roedd yr Ysbryd gyda ni, ac yno yng nghanol y llanw aflonydd o bobl yn mynd i mewn ac allan o'r orsaf, pob un yn rhuthro i'w gyrchfan ei hun. Roeddwn i'n gwybod bod yn rhaid i'm bywyd fel arweinydd Cristnogol bwyso mwy ar Iesu. Ar y palmant oer hwnnw, wrth iddo weddïo gyda mi, dagrau yn llifo i lawr fy mochau, roedd yr Ysbryd yn symud.

Yr un prynhawn prynais Feibl newydd, ac ysgrifennais ynddo, 'Ar gyfer dechrau tymor newydd, Medi 2022'. Heriodd Robert fi gyda chwestiwn sy'n dal i adleisio yn fy nghalon: 'Pa fath o arweinydd wyt ti wir eisiau bod?' Rhybuddiodd fi hefyd am y peryglon sy'n wynebu arweinwyr Cristnogol yn y byd toredig hwn yr ydym yn byw ynddo. Gallaf glywed ei lais cadarn, addfwyn a thyner o hyd, ei lygaid yn syllu ar fy llygaid i: 'Nan, bydd yn ofalus iawn o arian a phŵer ac awdurdod. Gall dy ddifetha. Rhaid i ti hiraethu am Iesu a threulio amser gydag Ef.' Roedd ei rybudd yn glir: 'Po fwyaf prysur y byddi di, y mwyaf agos at Iesu y dylet ti fod.' Fe wnes i gyfamod ag ef y byddwn i'n darllen fy Meibl ac yn treulio amser gydag Iesu bob bore – y mwyaf prysur y byddwn i, y mwyaf agos y byddwn i'n tyfu at Grist.

I Robert, roedd pob dim yn ymwneud ag Iesu; nid 'Duw' mewn ffordd amwys ac amhersonol, ond person Iesu, a gwaed yr Oen sydd wedi glanhau truan fel fi. Roedd Iesu yn bopeth iddo.

Yn ein Cymanfa Gyffredinol yn 2023 daeth Robert atom fel ein siaradwr gwadd. Cawsom ein hanrhydeddu cymaint, a chawsom ein bendithio cymaint gan ei bregethu eneiniedig. Ei thema oedd 'Cyflawni ei Gomisiwn': 'Felly, ewch a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân' (Mathew 28:19).

Roedd yn bregethwr pwerus, eneiniedig. Pa bryd bynnag y safai i siarad, Crist oedd yn ganolog. Fe'n hatgoffodd ni yma yng Nghymru am ein hanes cyfoethog o Iachawdwriaeth, hanes oedd wedi parhau yn ei eglwys ei hun yn India wrth i'r Efengyl gael ei rhannu gan genhadon o Gymru yno. Cyfeiriodd at ddiwygiadau'r gorffennol, ac yn enwedig yr un yn gysylltiedig ag Evan Roberts.

Pan ymwelais i a fy ngŵr, Huw, â Shillong ym mis Mawrth 2023, fe dreulion ni brynhawn hyfryd gyda Robert a Carol. Aethant â ni i bentref Smit i ymweld â Brenin llwyth y Khasi a'r Fam Frenhines. Ym mhresenoldeb Robert a Carol – y cwpl annwyl, grasol yma yr oedd gan bawb feddwl y byd ohonyn nhw – fe deimlais rywbeth adferol ar waith, gras yn ymestyn yn ôl y tu hwnt i hanes ac yn siarad am gymod. Fe wnaethon nhw ofyn i Robert weddïo. Roedd awdurdod tawel o'i gwmpas, yn tarddu o agosrwydd at Iesu.

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, roedd bob amser yn gwneud ymdrech arbennig i'm cyfarfod yn Llundain, fel arfer am frecwast. Sylwais ar y ffordd yr oedd yn trin y gweinydd, ag urddas, caredigrwydd a pharch. I Robert, nid oedd arweinyddiaeth byth ynglŷn â statws. Roedd ynglŷn â bod yn Grist debyg.

Siaradai mor annwyl am ei deulu – am Carol, Raphael a Rachel, a'i wyrion hefyd. Roedd yn eu caru hwy i gyd gymaint, a byddai'n hiraethu amdanyn nhw pan fyddai oddi cartref. Heddiw, rydym yn cydymdeimlo â'r teulu annwyl hwnnw ac yn parhau i'w cynnal mewn gweddi.

Rydym hefyd yn cydymdeimlo ag Eglwys Laitumkhrah yn Shillong, lle roedd yn aelod; â Synod Pdeng, Cymanfa Khasi Jaintia ac Eglwys Bresbyteraidd India yn gyfan. Roedd yn fawr ei lafur a'i weddi drosti i gyd.

Y Parchedig Ddr Robert Cunville, roeddet ti'n esiampl i ni i gyd o'r hyn y mae'n ei olygu i arwain yn dda – wedi dy angori yng Nghrist, wedi dy nodweddu gan ostyngeiddrwydd, yn eofn yn dy gyhoeddi. Byddaf yn ei golli cymaint: ei eiriau o anogaeth, ei gyngor doeth, haelioni ei ysbryd. Gorffennodd yn dda. Ac yn awr, mae coron cyfiawnder wedi'i chadw iddo.

*Nan W. Powell-Davies*
*Ysgrifennydd Cyffredinol EBC*

*(Lluniwyd i'w rannu yng ngwasanaeth coffa Robert ar 22 Chwefror yn eglwys Laitumkra, Shillong)*

# Y GRAWYS – WYTHNOS 5

## Arweinyddiaeth




### Darlleniad

*Mathew 5:1–12*

### Myfyrdod

Ar adeg pan mae hunaniaeth Gristnogol yn cael ei thynnu i mewn i ofod dadleuol gwrthdaro cymdeithasol, gall fod yn ddefnyddiol troi at y Gwynfydau i'n hatgoffa ein bod yn cael ein galw i ddangos arweinyddiaeth mewn cymdeithas. Hyd yn oed pan fydd byw yn ôl y gwerthoedd hynny'n costio'n ddrud inni, nid ydym ar ein pennau ein hunain. Nid yw arweinyddiaeth Gristnogol wedi'i datgysylltu oddi wrth farn y cyhoedd oherwydd galwad i wrando ar bryderon y gymuned yw'r alwad i garu ein cymydog. Mae'r gwrando a'r ymgysylltu hwn wedi'u hangori yng ngwerthoedd ein ffydd. Efallai ein bod yn teimlo nad oes angen dweud hyn ond, yn ddiweddar, yn wyneb heriau pan welir ffeithiau'n cael eu gwyrdroi neu geisiadau i gamfeddiannu ein treftadaeth a'n hunaniaeth Gristnogol, awgrymwyd y gallai fod angen i eglwysi fyfyrio'n feirniadol ar gynnwys eu negeseuon. Yn rhy aml byddwn yn syrthio i'r fagl o fod yn adweithiol, gan ganiatáu i'n hiaith gael ei phennu gan eraill. Yn ddi-os mae herio iaith ac agweddau cynhennus yn bwysig, ond o leiaf yr un mor bwysig yw'r angen inni ddatgan ein gwerthoedd yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol, hyd yn oed lle gall hyn ymddangos yn amlwg.

Mae'r Gwynfydau yn ein hatgoffa na fydd sefyll dros yr hyn sy'n iawn a cheisio gweithredu'n gyfiawn yn dwyn ffrwyth ar unwaith. I'r gwrthwyneb, gall ymrwymo i gyfiawnder yn aml roi pobl mewn perygl o ddioddef ymosodiad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn rydym wedi gweld arweinwyr eglwysig, yn ogystal ag arweinwyr mewn sectorau eraill o gymdeithas, yn destun beirniadaeth ac ymddygiad bygythiol oherwydd eu safbwynt ar faterion cyfiawnder cymdeithasol. Ar hyn o bryd, trwy waith Rhwydwaith Ffoaduriaid yr Eglwysi a'n cefnogaeth i broject yr Eglwys Noddfa rydym yn arbennig o ymwybodol o'r ymosodiadau ar y sefydliadau hynny sy'n gweithio i gynorthwyo a chefnogi pobl sy'n ceisio lloches. Ond mae profiadau tebyg hefyd wedi'u hadrodd gan bobl sy'n gweithio i fynd i'r afael â hiliaeth, i hyrwyddo deialog rhwng crefyddau neu eirioli dros gyfiawnder hinsawdd.

Gall dangos ein cefnogaeth i'r rhai sy'n rhoi arweinyddiaeth gadarnhaol wneud cyfraniad pwysig. Ar adeg pan mae llawer o bobl yn teimlo'n wedi'u dieithrio o brosesau gwleidyddol, gall fod yn ddefnyddiol tynnu sylw at waith yr arweinwyr gwleidyddol hynny sy'n ceisio dod â phobl at ei gilydd ac annog mwy o Gristnogion i ystyried gwleidyddiaeth fel maes lle gallant ddangos arweiniad. Yn ddiweddar mae eglwysi hefyd wedi'u cael eu hunain yn gorfod siarad i amddiffyn yr hawl i brotestio heddychlon a dadlau nad yw hyn yn anghydnaws â'n cefnogaeth i ymgysylltu cadarnhaol â phrosesau gwleidyddol.

Ar adegau o densiwn a brwydro, mae cymunedau'n falch o weld eu harweinwyr yn dod at ei gilydd. Gall hyn helpu i roi ymdeimlad o ddiogelwch yn ogystal â gobaith. Yn aml, gall eglwysi Cristnogol, yn enwedig wrth weithio mewn partneriaeth â chymunedau ffydd eraill, ffurfio craidd ymatebion cymunedol ar y cyd i heriau. Mae hyn oherwydd eu bod mewn sefyllfa o ymddiriedaeth ac wedi'u sefydlu yn y gymuned, ond hefyd oherwydd canfyddiadau cadarnhaol o'r gwerthoedd sy'n llywio eu harweinyddiaeth.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Ydych chi'n teimlo bod yr Eglwys ar hyn o bryd yn gwneud digon i gefnogi ac annog arweinyddiaeth gadarnhaol mewn sectorau eraill o gymdeithas?
- Pa negeseuon am arweinyddiaeth wleidyddol, os o gwbl, ydych chi'n eu clywed yn eich cyd-destun eglwysig? Hoffech chi weld unrhyw newidiadau yn hynny o beth?
- Ble welwch chi bartneriaid yn y gwaith hwn y tu hwnt i'r Eglwys yn y gymuned leol?

### Gweithredu


- Edrychwch ar negeseuon diweddar ar faterion cyfiawnder cymdeithasol yng nghyd-destun eich eglwys leol. Ydyn nhw'n rhagweithiol neu'n adweithiol yn bennaf? Ydyn ni'n cymryd yn ganiataol bod pobl yn deall o ba gyfeiriad y down ni o ran ein gwerthoedd?
- Ystyriwch estyn allan i ddangos undod â sefydliad neu unigolyn yn eich cymuned mewn sefyllfa lle cafwyd gelyniaeth tuag at eu gwaith.
- Aseswch pa mor barod fyddai eich eglwys i ymateb i sefyllfa argyfyngus neu frys. Fyddai hi mewn sefyllfa i ymuno mewn ymateb cymunedol ar y cyd, neu gynnull ymateb o'r fath? Os nad ydyw, pa gamau y gallai fod angen i chi eu cymryd?

### Gweddi

Arglwydd,
Gweddïwn dros bawb sy'n arwain yn ein cymunedau,
y byddant yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi
i weithio er lles cyffredin.
Gweddïwn yn arbennig dros yr arweinwyr hynny
sydd wedi bod yn destun cam-drin neu ymosodiad
oherwydd eu hymrwymiad i waith cyfiawnder.
Ysbrydola pob un ohonom
i ganfod y cyfleoedd cywir
i ddangos arweiniad
mewn ysbryd o bartneriaeth ac undod.
Lle mae cymunedau dan bwysau
gweddïwn fod eu harweinwyr
yn rhoi eu gwahaniaethau o'r neilltu
i ddod â phobl at ei gilydd
a chyflwyno rhodd
trawsnewidiol gobaith. Amen.

# *Ar Drywydd Cymry Lerpwl* – Gwerthfawrogiad ac Adolygiad

Mi ges i lawer o fwynhad o ddarllen llyfr diweddaraf D. Ben Rees am Gymry'r Glannau, *Ar Drywydd Cymry Lerpwl*, a gyhoeddwyd ar gyfer Gŵyl Ddewi eleni. Ar un wedd, cydymaith ydyw i'w gyfrol fawr, *Hanes Rhyfeddol Cymry Lerpwl*, a welodd olau dydd yn 2019. Felly, cadwch y ddwy gyfrol ochr yn ochr â'i gilydd ar y silff lyfrau.




Yn y gyfrol newydd, ceir tair prif adran. Yn gyntaf, hanes y ddinas ei hun, ac mae gogwydd Cymreig iawn i'r hanes hwnnw. Yn ail, sylwadau ar wahanol lenorion Cymraeg yn Lerpwl o ddyddiau Goronwy Owen yn y ddeunawfed ganrif ymlaen. Yn drydydd, a dyma graidd y gyfrol, 57 o gofiannau byrion yn coffáu Cymry'r ddinas.

At hyn, ceir casgliad o ffotograffau a darluniau pensil o'r capeli hynny fu'n eiddo i'r Annibynwyr Cymraeg yn Lerpwl. Ar ddiwedd y llyfr, mae yna adran fer ynghylch pêl-droed. Mae'n werth nodi hefyd y ceir rhagair buddiol iawn gan Dr Dylan Foster Evans o Brifysgol Caerdydd, un o'n hysgolheigion praffaf.

Mi gefais flas ar y cwbl, ac mae'n gaffaeliad mai darnau byrion at ei gilydd yw'r cynnwys. Mae hynny'n hwylus o ran darllen y gyfrol o dan eich pwysau, ond mae hefyd yn ddull effeithiol o gyfleu gwybodaeth. Mae'n atgoffa rhywun o ddull y gwyddoniadur o gyflwyno ffeithiau ac yn wir, hwyrach mai fel gwyddoniadur Cymry Lerpwl y dylid synio am y gyfrol hon. Pe na bai D. Ben Rees wedi cofnodi'r ffeithiau hyn, gallai'r cwbl fod wedi mynd ar goll.

Un o'r adrannau difyrraf yw honno am lenorion Cymraeg o Lerpwl. Ceir ymdriniaethau â llenorion a symudodd i'r ddinas, ac yna eraill, megis Minimus (John Roberts, 1808–80), a Gweneth Lilly (1920–2004) a fagwyd yn Everton ac Anfield, sy'n frodorion Cymraeg o'r ddinas. Ceir ymdriniaeth dda â stori Gweneth Lilly, 'Cymdogion', sy'n enghraifft gymharol brin o lenyddiaeth Gymraeg ynghylch Lerpwl gan un sy'n dod o Lerpwl. Y duedd fwyaf arferol yn Lerpwl fu ysgrifennu am fywyd yn ôl yng Nghymru. Ond hyd yn oed wrth ysgrifennu am Gymru, byddwn yn taeru fod dull llenorion Cymraeg Lerpwl o wneud hynny'n dangos yn aml iawn ddylanwad bywyd y ddinas. Mae'n anodd gen i gredu, er enghraifft, y gallai cawr fel Gwilym Hiraethog fod wedi llenydda a newyddiadura fel y gwnaeth pe bai wedi aros adref yn Llansannan.



Trown yn awr at yr adran cofiannau byrion. Dyma gyfraniad mawr i'n dealltwriaeth o fyd Cymry Lerpwl. Nid yw pob un o'r enwau'n gyfarwydd ac imi o leiaf, dyna ran go lew o'r diléit o ddarllen y cofnodion hyn. Mae rhywun yn dysgu rhywbeth newydd ar bob tudalen. Mewn sawl achos, dyma'r unig gofnod cyfoes sydd gennym o'r bobl sydd dan sylw. Rhaid mynd yn ôl i hen rifynnau o'r *Brython* i gael yr hanes fel arall. Mewn achosion eraill, mae'r wybodaeth yn ymhelaethiad sylweddol ar yr hyn sy'n wybyddus. Cymharwch, er enghraifft, rai o'r cofnodion hyn â chynnwys cyfatebol yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*; yn ddieithriad mae'r cofnod sydd yn *Ar Drywydd Cymry Lerpwl* yn rhagori. Ceir yn y cofiannau bortread o'r rhychwant o brofiadau a galwedigaethau a nodweddai'r gymuned Gymraeg yn Lerpwl: y gweinidog, y masnachwr, yr adeiladwr, y gwleidydd, y delynores, y genhades, y cerddor, y trefnydd eisteddfodau.

Gwelir yma holl ystod cymdeithasol y gymdeithas Gymraeg ddinesig y bu D. Ben Rees yn ysgrifennu yn ei chylch ers trigain o flynyddoedd. Mae'r gyfrol hon yn gyfraniad disglair eto fyth ganddo i hanes y Cymry Cymraeg yn Lerpwl. Ac mae'n cadarnhau ei le fel prif hanesydd y bywyd Cymraeg y tu allan i Gymru.

*Simon Brooks*

## Gweddi ar gyfer Sul y Blodau

O Arglwydd, ein Tad nefol,
Ar y Sul arbennig hwn, Sul y Blodau,
deuwn ger dy fron gyda chalonnau yn llawn o ddiolchgarwch a moliant.
Cofiwn heddiw am Iesu Grist yn cyrraedd dinas Jerwsalem,
mewn ysbryd o wyleidd-dra a gostyngeiddrwydd,
yn marchogaeth ar ebol asyn,
tra oedd y torfeydd yn ei groesawu gyda changhennau palmwydd
ac yn gweiddi “Hosanna i fab Dafydd,
Bendigedig yw’r Un sy’n dod yn enw’r Arglwydd.”

Arglwydd, fel y torfeydd hynny gynt,
helpa ninnau i’th groesawu di i mewn i’n bywydau ninnau,
nid yn unig gyda’n geiriau,
ond gyda ffydd fyw a real yn ein calonnau.
Helpa ni i fod yn ffyddlon i ti mewn gair a gweithred,
nid yn unig mewn cyfnodau o lawenydd a dathlu,
ond hefyd ar adegau lle byddwn yn wynebu heriau, amheuaeth a gofid.

Wrth i ni dy gyfarch ar ddechrau’r wythnos sanctaidd hon,
helpa ni i gerdded yn araf ac yn fyfyriol gydag Iesu ar hyd y ffordd,
gan anelu ein golygon tuag at y groes.
Cadw ni’n ymwybodol o’th gariad rhyfeddol tuag atom,
y cariad a amlygwyd wrth i ti gynnig dy unig fab yn aberth
er ein mwyn ni ac er mwyn y byd.

Arglwydd, maddau i ni pan fyddwn,
fel y torfeydd gynt,
yn newid ein meddyliau neu’n troi ein cefnau arnat.
Maddau i ni pan fydd ein ffydd yn wan
neu pan fyddwn yn anghofio am dy gariad.
Adnewydda ein hysbryd,
a llenwa ni â’th Ysbryd Glân
fel y gallwn fyw fel dy bobl di yn y byd heddiw.

Gweddïwn dros dy eglwys di, ar hyd a lled y byd;
y bydd iddi fedru tystio yn ffyddlon i’th Efengyl.
Bendithia dy eglwys yma yng Nghymru;
bendithia’r rhai sy’n arwain ac yn ysbrydoli,
y rhai sy’n gwasanaethu’n ffyddlon o wythnos i wythnos,
a’r rhai sy’n dod ynghyd i dy addoli di yn gyson.

Gweddïwn dros ein cymunedau a’n teuluoedd,
a thros bawb sy’n annwyl yn ein golwg.
Bydd gyda’r rhai sy’n sâl, y rhai sy’n unig,
y rhai sy’n poeni neu’n galaru.
Rho dy gysur i’r rhai sydd mewn tristwch,
nerth i’r rhai sydd mewn gwendid,
a gobaith i’r rhai sydd wedi colli pob ystyr a phwrpas.

Cofia hefyd, O Dad nefol,
am fyd sydd mewn angen am heddwch a thangnefedd.
Lle mae rhyfeloedd yn digwydd, deisyfwn am heddwch;
lle mae anghyfiawnder, deisyfwn am gyfiawnder;
a lle mae ofn a dychryn yn rheoli, deisyfwn am obaith newydd.

Wrth i ni symud o ddydd i ddydd ar hyd yr wythnos sanctaidd hon,
helpa ni i baratoi ein calonnau ar gyfer llawenydd mawr y Pasg.
Boed i oleuni’r atgyfodiad ein hatgoffa ni
fod dy gariad yn gryfach na phechod,
yn gryfach na phoen,
ac yn gryfach na marwolaeth ei hun.

Diolchwn am fuddigoliaeth y groes, am y bedd gwag
ac am yr Iesu atgyfodedig.

Clyw ein gweddi, O Arglwydd,
a derbyn ein mawl,
yn enw Iesu Grist, ein Harglwydd a’n Gwaredwr. Amen

*Aled Davies*

## Gweddi ar gyfer yr Wythnos Fawr

O Arglwydd, ein Tad nefol,
wrth i ni ddechrau ein pererindod
drwy’r Wythnos Fawr,
deuwn ger dy fron mewn gostyngeiddrwydd
a diolchgarwch.
Dyma wythnos sy’n ein hatgoffa ni
o ddyfnder dy ras a’th gariad tuag atom,
cariad a welwyd yn glir yn Iesu Grist, dy Fab annwyl.

Wrth inni gofio digwyddiadau’r wythnos hon,
helpa ni i arafu a myfyrio ar yr hyn sy’n bwysig.
Pan gofiwn am Iesu yn treulio amser yn Jerwsalem,
yn dysgu, yn gweddïo ac yn gwasanaethu eraill,
dysga ni i ddilyn ei esiampl ef,
gan efelychu ei fywyd o ddangos cariad, tosturi,
gostyngeiddrwydd a ffyddlondeb.

Pan gofiwn am y swper olaf gyda’r disgyblion
yn yr oruwchystafell,
helpa ni i werthfawrogi’r gymuned o ffydd yr ydym
ninnau yn rhan ohoni.
Dysga ni i wasanaethu ein gilydd
gyda chariad a pharch,
gan gofio bod Iesu ei hun wedi dod i’n byd,
nid i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu.

Pan gofiwn am yr hyn a ddigwyddodd yn yr ardd
yn Gethsemane,
lle gweddïodd Iesu ynghanol gofid, poen a phryder,
helpa ni i ddod atat ti yn ein hofnau a’n trafferthion
ein hunain.
Bydded i ti ein hatgoffa ninnau nad ydym byth
ar ein pennau ein hunain,
oherwydd rwyt ti gyda ni bob amser.

Arglwydd, wrth inni feddwl am y groes
ar ddydd Gwener y Groglith,
helpa ni i ddeall yn ddyfnach faint oedd cost
ein hiachawdwriaeth.
Diolchwn i ti am y weithred gariadus oedd mor fawr
nes i Iesu roi ei fywyd drosom ar y groes.
Dysga ni i fyw bywydau sy’n adlewyrchu’r
cariad hwnnw
yn y byd o’n cwmpas, ac i’w rannu gyda’r bobl
y down ar eu traws.

Gweddïwn dros dy eglwys ar hyd a lled y byd
wrth iddi ddathlu’r wythnos sanctaidd hon.
Boed i neges o obaith, maddeuant a bywyd newydd
gael ei chlywed yn glir ym mhob man.

Gweddïwn hefyd dros y rhai sy’n dioddef heddiw:
y rhai sy’n sâl, y rhai sy’n galaru, y rhai sy’n unig
neu’n ofnus.
Rho iddynt gysur, nerth a gobaith.

Arglwydd, paratoa ein calonnau
wrth inni symud trwy’r wythnos hon
tuag at lawenydd y Pasg.

Boed i oleuni’r atgyfodiad ein hatgoffa fod dy gariad
yn gryfach na thywyllwch,
a bod bywyd newydd yn bosibl trwy Iesu Grist.

Clyw ein gweddi, a derbyn ein mawl,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

*Aled Davies*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa
ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â’r Panel
Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346
yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru
ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn
swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru